

# Tai ar gyfer pobl anabl

## Pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

tai pawb
promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

Access Design Solutions UK Limited

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | **3** |
| Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth hwn? | 4 |
| Pam cynhyrchu'r pecyn cymorth hwn? | 4 |
| Pobl anabl a thai | 5 |
| Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn | 5 |
| **Eich dyletswyddau cydraddoldeb a thai** | **6** |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau | 7 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | 7 |
| Cynnwys pobl anabl | 8 |
| Grwpiau mynediad lleol | 10 |
| Casglu a defnyddio tystiolaeth i asesu effaith | 12 |
| Model cymdeithasol o anabledd | 12 |
| Ysgogwyr eraill: deddfwriaeth gysylltiedig | 13 |
| **Sut olwg sydd ar 'dda': y broses ddatblygu polisi** | **14** |
| Strategaeth dai | 15 |
| Strategaeth dai: dyletswyddau cydraddoldeb | 16 |
| Strategaeth dai: casglu tystiolaeth | 16 |
| Strategaeth dai: cynllunio gyda'n gilydd | 18 |
| Strategaeth dai: sut olwg sydd ar 'dda' | 19 |
| Strategaeth dai: sut olwg sydd ar 'dda' | 20 |
| Asesiad Marchnad Dai Leol: Gwybodaeth am y stoc cyfredol | 21 |
| Cynllun Datblygu Lleol | 22 |
| Cynllun Datblygu Lleol: dyletswyddau cydraddoldeb | 23 |
| Datblygiad a chynllunio tai | 23 |
| Ystyriaethau cynllunio | 23 |
| Ystyriaethau datblygu ychwanegol | 26 |
| **Sut olwg sydd ar dda mewn ymarfer** | **28** |
| Cofrestrau tai hygyrch | 29 |
| Addasiadau | 34 |
| Addasiadau: mesurau llwyddiant | 35 |
| Y sector preifat | 37 |
| Cymorth | 39 |
| Cynlluniau cymorth yng Nghymru | 40 |
| **Llyfryddiaeth** | **41** |
| **Cysylltiadau** | **42** |

# Rhagair

Mae byw mewn llety addas yn sylfaenol i'n lles a'n gallu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y cyniga bywyd. Mae'r Mudiad Byw Annibynnol yn nodi tai hygyrch a thai a addaswyd fel un o'r hawliau sylfaenol ar gyfer byw'n annibynnol. Fodd bynnag, y gwirionedd yw bod rhai pobl anabl yn byw mewn llety annerbyniol nad yw'n diwallu'u hanghenion penodol a gall effeithio'n arwyddocaol ar ansawdd eu bywyd. Gall llety anaddas effeithio'n andwyol ar fywydau pob dydd pobl anabl, gan gynnwys eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, eu lles cyffredinol a'u gallu i ddilyn a gwireddu'u cyrchnodau ac uchelgeisiau.

Yn aml bydd pobl anabl yn sôn am brofiadau negyddol wrth gael mynediad i dai addas neu lwyddo cael darpariaeth cymhorthion ac addasiadau i wneud eu cartref presennol yn addas i'w hanghenion. Gallai pob darparwr tai wneud yn well, a dylent, i sicrhau yr eir i'r afael yn effeithiol ag anghenion pobl anabl yn y llety y maent yn byw ynddo, boed a yw'n dai cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat, gan gynnwys sicrhau cymorth tenantiaeth a gwasanaethau cyngor priodol ar gael i bobl anabl i ategu byw'n annibynnol. Bydd cynnwys pobl anabl yn effeithiol wrth lunio strategaethau a chynlluniau ac ymarferion gweithredol yn helpu hefyd i wella ein gwaith cynllunio a chyflenwi gwasanaethau. I awdurdodau lleol, bydd ein dyletswyddau sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn tanategu'n hymrwymiad i gyfle cyfartal a mynediad cyfartal i bawb. Anogaf bob darparwr tai i adolygu'u hymagwedd wrth sicrhau bod tai priodol i bobl anabl, ac i awdurdodau lleol yn eu rôl fel landlordiaid a'u rôl tai strategol fel ei gilydd.

Felly croesawaf y Pecyn Cymorth hwn i awdurdodau lleol, a gafodd ei lunio ar gyfer Swyddfa Cymru'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan Tai Pawb ac Access Design Solutions UK Ltd, gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth tai ar gyfer pobl anabl. Anogaf bob awdurdod lleol i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth i barhau i wella argaeledd a dewis llety sydd yn diwallu anghenion pobl anabl a gweithio tuag at sicrhau mynediad i lety priodol, agwedd sylfaenol ac eto hanfodol bwysig ar gyfer lles unigolyn, ar gyfer pawb ledled Cymru.

**Cynghorydd Aaron Shotton**
Llefarydd WLGA dros Dai ac
Arweinydd Cygnor Sir Fflint

# Rhagarweiniad



## Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth hwn?

Mae'r pecyn cymorth hwn ar gyfer aelodau etholedig awdurdodau lleol yng Nghymru, yn arbennig y rhai hynny sy'n ymwneud â thai a chynllunio. Yn benodol, gellir ei ddefnyddio gan:

- **Aelodau'r Cabinet,** i sicrhau bod strategaethau tai neu gynlluniau cyfatebol yn cydymffurfio â deddfau cydraddoldeb ac yn dilyn arfer gorau.
- **Aelodau craffu,** i sicrhau ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â thai a chynllunio.
- **Aelodau yn eu rôl flaenllaw,** i'w helpu:
  - i reoli gwaith achos ar ran pobl anabl
  - i ymgysylltu â'r gymuned gyfan, er enghraifft, strategaethau tai cyngor sy'n effeithio ar bobl anabl.

Mae'n bwysig cofio y gall y term 'pobl anabl' gyfeirio at bobl ag ystod o namau, gan gynnwys: namau corfforol a synhwyraidd, anableddau dysgu, awtistiaeth, a chyflyrau iechyd meddwl.

## Pam cynhyrchu'r pecyn cymorth hwn?

Trwy ei ymchwiliad tai 2018, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi nodi prinder cronig o dai hygyrch ac addasadwy, a bydd y sefyllfa hon ond yn gwaethygu.

Nod y pecyn cymorth hwn yw cefnogi aelodau etholedig yr awdurdod lleol i ystyried tai ar gyfer pobl anabl yn eu strategaethau a'u cynlluniau, a hyrwyddo cyfranogiad ystyrlon pobl anabl wrth ddatblygu'r rhain, rhannu arfer gorau, a chynorthwyo i graffu ar bolisïau ac arferion tai awdurdodau lleol.

Rydym wedi cynhyrchu pecyn cymorth ar wahân ar gyfer pobl anabl a'u sefydliadau. Bydd hyn yn helpu i rymuso pobl anabl i arfer eu hawl i fyw'n annibynnol, trwy fynediad at dai mwy priodol.

## Pobl anabl a thai

Yng Nghymru, mae 23% o'r boblogaeth (a 39% o denantiaid cymdeithasol) yn datgan bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn 'gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd hirdymor' (Cyfrifiad, 2011). Mae'r rhan fwyaf o bobl (83%) yn caffael eu nam yn hytrach na bod yn anabl o enedigaeth.

Bydd y galw am dai hygyrch yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol agos.

Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd y nifer o bobl a fydd yn cael trafferth â thasgau domestig dros 65 oed yn cynyddu oddeutu 34% a bydd y rhai hynny sydd ag anawsterau symud yn codi 58% erbyn 2035 '(Swyddfa Archwilio Cymru, 2018, t.56).

Mae canfod a sicrhau bod cartref yn addas ar gyfer person anabl yn amrywio'n fawr yn ôl gofynion unigol. Mae mynediad i fwynderau lleol o'r cartref hefyd yn bwysig. Mae pobl ag anableddau synhwyraidd neu anableddau dysgu, neu gyflyrau iechyd meddwl, yn aml angen cymorth ymarferol wrth ddod o hyd i gartref a rheoli tenantiaeth.

## Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

Bwriedir i'r pecyn cymorth fod mor ryngweithiol a hawdd ei ddefnyddio â phosib. Rydym wedi cynnwys nifer o gwestiynau allweddol, astudiaethau achos, enghreifftiau o arferion da ac awgrymiadau.

Mae'r penodau wedi'u rhannu'n:

**Dyletswyddau cydraddoldeb:** y ddeddfwriaeth yng Nghymru yn ymwneud â thai a phobl anabl

**Proses datblygu polisi:** sut y gall strategaethau tai a chynllunio ymgorffori gofynion tai pobl anabl

**Ymarfer:** sut mae strategaethau tai a chynllunio'n trosi'n ymarfer



# Eich dyletswyddau cydraddoldeb a thai

Bydd y bennod hon yn amlinellu'ch dyletswyddau cydraddoldeb mewn perthynas â hawliau pobl anabl a thai, a sut y gallwch chi hyrwyddo'r rhain yn effeithiol yn eich rôl fel cynghorydd.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Mae gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddyletswydd i weithredu Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) er mwyn diogelu a hyrwyddo hawliau pobl anabl. Mae'r gofynion allweddol mewn perthynas â thai yn ymddangos yn Erthyglau 9 a 19.

**Erthygl 9:** Y ddyletswydd i sicrhau bod pobl anabl yn cael mynediad, yn gyfartal ag eraill, i adeiladau, trafnidiaeth, cyfathrebu, gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys mynediad i dai.

**Erthygl 19:** Hawl cyfartal pob person anabl i fyw yn y gymuned, â dewisiadau sy'n hafal i bobl eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd yn 2013 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r Fframwaith yn anelu at gyflawni rhwymedigaethau UNCRPD. Mae'n ymrwymo i wella mynediad i dai addas a hygyrch ar gyfer pobl anabl, ac mae'n nodi'r defnydd o **gofrestrau tai hygyrch** fel cyfleoedd allweddol i sicrhau gwelliannau.

### ? Cwestiynau allweddol

- A yw ein hawdurdod lleol wedi ymrwymo i, a chydymffurfio â'r CRPD?
- A yw cynlluniau a strategaethau lleol ein hawdurdod lleol yn adlewyrchu amcanion cenedlaethol y Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol?

## Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai hynny sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus (fel cymdeithasau tai) yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n rhagweithiol at gymdeithas decach yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n ei wneud yn ofynnol iddynt roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Mae cael 'sylw dyledus' yn golygu sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o – ac yn deall - yr hyn sy'n ofynnol, a rhoi'r wybodaeth hon ar waith lle bynnag y bo'n berthnasol.

Wrth lunio eu Hasesiadau Marchnad Dai Leol a Chynlluniau Datblygu Lleol, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, neu PSED) i ystyried gofynion pobl anabl. Mae'r ddyletswydd yng Nghymru yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus:

– gynnwys pobl anabl
– casglu tystiolaeth, a
– defnyddio'r hyn uchod i asesu effaith

Mae'r adrannau isod yn awgrymu sut y gallwch chi gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn ym maes tai.

## Cynnwys pobl anabl

Yng Nghymru, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau cyhoeddus gynnwys pobl anabl yn y camau maent yn eu cymryd i ddiwallu'r PSED. Dylai dulliau a graddfa ymgysylltu fod yn gymesur â maint ac adnoddau'r sefydliad ac arwyddocâd y mater.

Mae pobl anabl yn rhanddeiliaid allweddol wrth lunio polisi tai. Dim ond trwy gynnwys pobl anabl lleol allwch chi wneud y penderfyniadau mwyaf priodol. At hynny, **mae ymrwymiad yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Y ffordd orau o gyflawni hyn yw defnyddio amrywiaeth o dechnegau ymgysylltu gan gynnwys fforymau lleol, grwpiau ffocws, cynadleddau cymunedol, a chysylltu â sefydliadau sector gwirfoddol lleol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eich bod yn casglu barnau oddi wrth groestoriad cynrychioliadol o'r gymuned a bydd yn eich helpu i nodi gofynion amrywiol pobl anabl.



## Pwysigrwydd cynnwys – safbwynt tenant

’Gan fod pobl anabl mor amrywiol, hyd yn oed â’r un nam, hoffwn i awgrymu bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar bwysigrwydd cynnwys y tenant mewn unrhyw addasiad/adeilad newydd.

Fy mhrofiad yw bod rhagdybiaethau wedi’u gwneud, yn anghywir, ac felly mae amser ac arian wedi cael eu gwastraffu. Hyd yn oed pan fydd asesiad therapydd galwedigaethol yn ei le, mae cynllunwyr yn tueddu i gymryd drosodd ac mae’r tenant yn cael ei anwybyddu i ryw raddau.

Un broblem rwyf wedi dod ar ei thraws tro ar ôl tro yw’r diffyg cyfathrebu rhwng staff rheoli, sydd wedi awdurdodi addasiad neu adeilad newydd, a staff sydd ar y ddEIAr sy’n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu unrhyw addasiad neu oruchwylio adeilad newydd.

Felly efallai y gallai cwestiwn allweddol fod:

Ydych chi’n cynnwys y tenant yr holl ffordd trwy’r broses addasu/adeiladu o’r newydd?’

Mae ymgysylltiad gwirioneddol effeithiol yn digwydd trwy gydgynhyrchu – pobl anabl yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus a’r sector preifat i nodi problemau ac atebion, mynd i’r afael â materion cyflawni a sicrhau’r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer gwella.

# Astudiaeth achos

### Uned Arennol newydd Ysbyty Llwynhelyg – Cyd-gynhyrchu

Sefydlwyd tîm prosiect i arwain ar ddatblygu Uned Arennol newydd yn Ysbyty Llwynhelyg. Hwylusodd y tîm drafodaethau rhwng ystod eang o randdeiliaid.

Trwy gydol y prosiect, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd lle roedd aelodau’r grŵp mynediad lleol, staff meddygol, cleifion, staff gweinyddol a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn siarad am y cynlluniau. O ganlyniad i hyn, nododd y tîm yr angen am fodel cyffyrddadwy o’r datblygiad, er lles ymgyngoreion dall a phobl â nam ar eu golwg. At hynny, sicrhaodd ymgysylltiad rhwng y cyngor a gweithredwyr bysiau fod cyfleusterau bws cyfatebol yn cael eu datblygu y tu allan i’r cyfleuster newydd.

## Grwpiau mynediad lleol

Yn gyffredinol, mae grwpiau mynediad lleol yn grŵp o bobl sy'n helpu i wella mynediad a chynhwysiant o fewn yr amgylchedd adeiledig. Mae'r grwpiau'n cynrychioli eu cymuned leol a byddant yn defnyddio, neu'n dymuno defnyddio, y tai, cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir.

Mae rhai awdurdodau lleol yn cyflogi swyddog mynediad, sy'n cynghori ar atebion ymarferol a thechnegol i faterion mynediad cynhwysol. Gall y person hwn weithredu fel cyswllt rhwng y grŵp mynediad a'r awdurdod lleol, gan arwain at grŵp mynediad mwy gweithgar, cynorthwyol a gwerthfawr yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid rôl person unigol yw codi materion mynediad. Dylai pob swyddog ac aelod etholedig gael eu hyfforddi a'u gwerthuso mewn cydraddoldeb anabledd. Dylai aelodau etholedig penodol hyrwyddo buddiannau pobl anabl hefyd.

### ? Cwestiynau allweddol

- Ydych chi'n gyfarwydd â'ch grŵp mynediad lleol? Pa gymorth sydd ar gael i'r grŵp hwn? (e.e. ystafelloedd cyfarfod, grantiau bach, cymorth gweinyddol, hyfforddiant)
- Ydych chi'n rhagweithiol o ran cefnogi ac ymgysylltu'n effeithiol â'r grŵp?
- A oes gan eich awdurdod lleol swyddog mynediad? A ydyn nhw'n darparu cymorth i'r grŵp mynediad?
- A oes gennych chi aelod etholedig sy'n 'hyrwyddwr' gweithredol er lles pobl anabl?

## Astudiaeth achos

### Cyngor Sir Penfro – swyddog mynediad

Mae gan y Cyngor hwn swyddog mynediad gweithgar sy'n darparu cyfarwyddyd ac arweiniad ar anghenion pobl anabl.

- Mae'r swyddog mynediad wedi darparu cyngor helaeth ar gynigion ar gyfer datblygiad tai newydd i bobl anabl â nam ar eu symudedd, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn. Tynnodd y swyddog sylw arbennig at yr angen am fwy o le. O ganlyniad, diwygiwyd y cynnig yn ôl y canllaw arfer gorau 'Tai sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn' a Rhan M o'r rheoliadau adeiladu.
- Mewn perthynas â datblygiad tai arall, argymhellodd y swyddog mynediad yr angen am droedffordd i gysylltu'r datblygiad â'r eiddo presennol. Roedd hyn yn ei wneud yn haws i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl hŷn a theuluoedd â phlant bach mewn bygis i gael mynediad i eiddo presennol a mannau parcio newydd.

## Cyfarwyddyd ychwanegol >

Er mwyn galluogi cyfranogiad llawn, rhaid i chi ystyried hygyrchedd digwyddiadau ymgysylltu, fel na chaiff unrhyw berson anabl ei gau allan oherwydd eu gofynion mynediad.

Mae Cynllunio ar gyfer Mynediad Cynhwysol yng Nghymru: Pecyn Cymorth Arfer Da gan Disability Wales yn darparu rhestrau gwirio defnyddiol ar gyfer cynllunio cyn, yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd a digwyddiadau.

Mae Fformatau cyfathrebu hygyrch hefyd yn hanfodol i sicrhau cyfranogiad llawn pobl anabl mewn unrhyw fforymau, grwpiau, cyfarfodydd neu ddigwyddiadau. Os ydych chi'n darparu gwybodaeth, mae'n arfer da gofyn i'r rhai sy'n mynychu am y fformatau a ffefrir ganddyn nhw, a chadw cofnod cyfredol o hyn.

Efallai y bydd angen darparu cyfieithwyr iaith arwyddion, palantypists, fersiynau hawdd eu darllen, Fformatau Braille neu sain, print bras (16-18 pwynt yn gyffredinol), a/neu sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn electronig ymlaen llaw

## ! Gair o Gyngor

Ffordd gost-effeithiol ac amser-effeithiol o sicrhau bod eich gwybodaeth yn hygyrch i ganran fwy o'ch cynulleidfa yn syth yw:

- ysgrifennu mewn iaith glir (h.y. defnyddio brawddegau byr, geiriau bob dydd a strwythur rhesymegol)
- ei gwneud mor gryno â phosibl
- sicrhau ei bod mor ddarllenadwy â phosibl, er enghraifft gan ddefnyddio maint testun 14 pwynt o leiaf, a bod cyferbyniad lliw da
- defnyddio'r gwirydd hygyrchedd yn nogfennau Microsoft Word i sylwi ar unrhyw beth a allai fod yn anodd neu anhygyrch i bobl sy'n defnyddio meddalwedd darllen sgrin

## Casglu a defnyddio tystiolaeth i asesu effaith

Bydd cynnal asesiad effaith cydraddoldeb (EIA) yn eich helpu chi i ddiwallu'ch dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â sicrhau:

- **mae eich penderfyniadau'n effeithio mewn ffordd deg:** lle mae tystiolaeth y bydd penderfyniad neu bolisi yn effeithio'n negyddol ar bobl anabl yn ogystal â grwpiau eraill sy'n cael eu gwarchod yn gyfreithiol, megis Sipsiwn a Theithwyr, dylid cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.
- **mae eich penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth:** mae EIA yn darparu ffordd glir a strwythuredig i gasglu, asesu a chyflwyno tystiolaeth berthnasol
- **mae eich proses o wneud penderfyniadau yn fwy tryloyw:** mae proses seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys y rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan y polisi yn llawer mwy agored a thryloyw, ac felly'n fwy tebygol o ennyn ymddiriedaeth yn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn eich penderfyniadau
- **rydych yn creu llwyfan ar gyfer gweithio mewn partneriaeth:** mae EIA yn cynnig cyfle i sefydliadau weithio mewn partneriaeth i ystyried yr effaith ar aelodau'r gymuned a rennir, ac i feddwl am sut y gallent gydweithio a chydlynu penderfyniadau ariannol. (Gweler hefyd adran 2.4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, sy'n gosod dyletswydd i gyd-gynhyrchu).

Mae gan **aelodau'r Cabinet** y cyfrifoldeb pennaf am EIAau a bydd angen iddynt sicrhau bod y rhai sy'n paratoi opsiynau a chynigion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd EIAau.

Dylai **aelodau craffu** allu gofyn a yw EIA o strategaethau, polisïau a phenderfyniadau wedi'i cynnal, ac ymholi amdano.

### ? Cwestiynau allweddol

- Sut ydyn ni'n casglu a defnyddio tystiolaeth i lywio ein polisi ac ymarfer tai?
- A ydyn ni'n cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar bob strategaeth, polisi a swyddogaeth newydd ac adolygedig?

# Model cymdeithasol anabledd

Mae model cymdeithasol anabledd yn cydnabod bod pobl wedi'u hanablu gan y rhwystrau sy'n bodoli'n gyffredin mewn cymdeithas. Yn syml, nid yr anallu i gerdded sy'n rhwystro person rhag mynd i mewn i adeilad heb gymorth ond bod grisiau yno sy'n anhygyrch i ddefnyddiwr cadair olwyn. Mewn geiriau eraill, mae 'anabledd' wedi'i adeiladu'n gymdeithasol. Arweiniodd Llywodraeth Cymru y DU trwy fabwysiadu'r model cymdeithasol yn ei holl bolisïau ac arferion yn 2002.

Mae model cymdeithasol anabledd yn ei wneud yn ofynnol i gymdeithas ddileu'r rhwystrau hyn er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bawb.

## ? Cwestiynau allweddol

- A yw'r holl gyfeiriadau at bobl anabl yn eich polisïau ac arferion yn defnyddio **iaith** sy'n gyson â model cymdeithasol anabledd?
- A yw ein polisïau a'n gwasanaethau tai wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r model cymdeithasol? A ydynt yn creu rhwystrau sy'n analluogi pobl ac yn atal cydraddoldeb?



# Ysgogwyr eraill: deddfwriaeth gysylltiedig

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl anabl, a'r dewis a rheolaeth y dylai pobl anabl allu eu hymarfer dros gymorth, gan gynnwys lle a chyda phwy i fyw. Mae'r canllawiau statudol yn dweud: 'wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl'.

Gall tai â chymorth gynnwys cymorth â gwasanaethau a chymryd rhan yn y gymuned leol. Mewn rhai achosion, gall sut y caiff ei ddarparu gyfyngu ar allu person anabl i fyw'n annibynnol.

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru:

- feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau
- gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac
- atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Un nod lles yw **Cymru Fwy Cyfartal**, lle gall pawb gyrraedd eu potensial. Mae'r Ddeddf yn cynnig y potensial i wella gwasanaethau a chymorth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru, â ffocws arbennig ar gynllunio hirdymor.

## ☑ Enghraifft o arfer da

**Mae'n arfer da** defnyddio'r **'Prawf Tenantiaeth Go Iawn'**, y gellir ei ddefnyddio mewn tai â chymorth sy'n seiliedig ar denantiaeth i nodi i ba raddau mae hawliau tenantiaeth yn cael eu cyflawni. Mae'r prawf wedi'i gynllunio fel offeryn hunanasesu ar gyfer darparwyr cymorth, landlordiaid a chomisiynwyr. Gall eu helpu i ddeall sut mae eu hymagweddau a'u hymarferion yn gweithio ar gyfer, neu yn erbyn, ymarfer hawliau tenantiaeth go iawn gan eu tenantiaid a phobl maen nhw'n eu cefnogi, ac i nodi sut y gellir gwneud gwelliannau. (Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth **yma**).



# Sut olwg sydd ar 'dda': y broses ddatblygu polisi

Bydd y bennod hon yn esbonio sut y gall strategaethau tai a chynllunio gynnwys gofynion tai pobl anabl, a beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## Strategaeth dai

**Mae'r pecyn cymorth hwn yn defnyddio'r term 'strategaeth dai' i gyfeirio at naill ai strategaethau annibynnol neu elfennau tai mewn strategaethau a chynlluniau eraill.**

Er nad oes gofyniad bellach i baratoi strategaeth dai ar wahân yng Nghymru, mae'n rhaid adlewyrchu elfennau tai strategol mewn Cynlluniau Integredig Sengl (a allai gael eu disodli gan Gynlluniau Lles yn y dyfodol).

Ystyrir bod strategaethau tai yng Nghymru yn offeryn strategol pwysig ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynhyrchu strategaethau tai lleol ar wahân.

Mae Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yn datgan: 'bydd effeithiolrwydd y gwasanaeth tai strategol a'r swyddogaethau a gedwir ar gyfer awdurdodau lleol sydd â stoc wedi'i drosglwyddo yn cael eu harwain orau gan gynllunio strategol a rhaid parhau i gynnal y broses gyflenwi weithredol yn effeithiol'.

Bydd **strategaeth dai** yn cyflwyno sut y bydd cyngor a'i bartneriaid yn llunio a darparu gwasanaethau a darpariaeth tai yn yr ardal yn y dyfodol. Bydd y strategaeth yn cael ei llywio'n rhannol gan dystiolaeth a gasglwyd drwy'r **Asesiad Marchnad Dai Leol**, a bydd y strategaeth yn ei dro yn llywio'r **Cynllun Datblygu Lleol**.[1]

### ? Cwestiynau allweddol

- A yw'r swyddog cydraddoldeb arweiniol a/neu'r swyddog mynediad yn ein hawdurdod wedi bod yn rhan o ddatblygu'r strategaeth dai?
- A ydych chi wedi ymgysylltu â phobl anabl yn eich ward i ofyn iddyn nhw am eu materion tai a sut yr hoffen nhw i chi gefnogi eu gofynion? (e.e. pa mor hawdd yw hi i ddefnyddiwr cadair olwyn, person ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl i brynu neu rentu cartref preifat neu gymdeithasol yn eich ardal chi?

Dylai strategaethau tai ystyried gofynion a dyheadau pobl anabl yn yr ardal a chynllunio opsiynau tai a chymorth priodol.

### Strategaeth Dai: dyletswyddau cydraddoldeb

Dylai eich strategaeth dai adlewyrchu'r amcanion cydraddoldeb sy'n ymwneud â gofynion pobl anabl sydd yng **nghynllun cydraddoldeb strategol** eich awdurdod lleol. Hefyd dylai gynnwys y canlyniadau ac unrhyw gamau lliniaru sy'n deillio o'r EIA a gynhaliwyd ar y strategaeth. Mae hefyd yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ymgysylltu â phobl anabl wrth ddatblygu strategaeth (gweler pennod 5 am enghreifftiau).


[1]Erbyn Rhagfyr 2018, bydd gofyn hefyd i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaethau digartrefedd a'u hadolygu bob pedair blynedd. Er ein bod yn ystyried digartrefedd yn nes ymlaen, mae ystyriaeth fanwl o ofynion pobl ddigartref anabl y tu hwnt i gwmpas y pecyn cymorth hwn.

## Strategaeth dai: casglu tystiolaeth

Er mwyn cynllunio darpariaeth tai a gwasanaethau tai yn effeithiol, dylai awdurdodau lleol gael dealltwriaeth o bobl anabl sy'n byw yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys gwybod, er enghraifft:

- nifer y bobl anabl sy'n byw yn ardal yr awdurdod
- y mathau o namau sydd ganddynt (ar gael fel arfer trwy elusennau cenedlaethol, e.e. Offeryn Data Colli Golwg RNIB)
- amcangyfrifon ar y nifer o bobl sy'n debygol o fod angen cartref a/neu gymorth hygyrch nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys lefelau a mathau o gymorth a gofynion mynediad (gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon gan, er enghraifft, gwasanaethau iechyd meddwl)
- nifer y bobl anabl sy'n dioddef o ddigartrefedd neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd
- asesiad o angen pobl anabl sy'n derbyn, neu a allai fod yn derbyn cymorth, yn gysylltiedig â thai drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl a gwasanaethau eraill (cysylltwch â Chymorth Cymru i ganfod sut i gael gafael ar y data hwn).

Mae ein hadroddiad, 'Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru' yn dangos bod **20%** o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystyried bod argaeledd a defnyddioldeb eu data anabledd yn **wael**, â dim ond **15%** o'r farn ei fod yn **uwch na'r cyfartaledd.**



| Ffynonellau allweddol o ddata |
|---|
| **Cyfrifiad**<br>e.e. Strwythur Oedran, Oedolion nad ydynt mewn cyflogaeth a phlant dibynnol a phobl â phroblemau iechyd neu anabledd hirdymor, Iechyd a darpariaeth o ofal di-dâl, Anheddau, lleoedd cartref a math o lety, Daliadaeth, Ystafelloedd, Ystafelloedd Gwely a gwres canolog |
| **Amcanestyniadau poblogaeth ONS**<br>Data cenedlaethol a lleol yn ‘Pobl, Poblogaeth a chymunedau’ gan gynnwys Iechyd a gofal cymdeithasol, Nodweddion aelwydydd, Tai, Lles |
| Arolygon aelwydydd |
| Cyfweliadau â chartrefi sampl |
| Ystadegau ar ddeiliaid Bathodyn Glas, deiliaid cerdyn mynediad neu gynlluniau lleol perthnasol eraill |
| Data ar fudd-daliadau - cyfradd y bobl sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd, megis Lwfans Byw i’r Anabl, Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), Lwfans Gweini, taliadau uniongyrchol |
| Data ar ofal cymdeithasol, pobl yn cael eu cartrefu’n amhriodol mewn gofal preswyl/ gofal cartref nyrsio |
| Gwybodaeth GIG e.e. Data ar wasanaeth cadair olwyn |
| Gwybodaeth GIG - data ynghylch rhyddhau gohiriedig e.e. ni allant ddychwelyd adref oherwydd anhygyrchedd/anaddasrwydd |
| Data porth Cenhinen – yn darparu data ar boblogaeth yn ôl band oedran, rhyw, ethnigrwydd, a Lwfans Byw i’r Anabl neu PIP, Lwfans Cefnogi Cyflogaeth a data ynghylch twfaelwydydd, ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yng Nghymru i helpu i gynllunio gwasanaethau gofal yng Nghymru (er y gellir ei ddefnyddio ar gyfer tai a chynllunio gwasanaethau eraill)<br><br>Gall **gwasanaethau cymdeithasol** a thai rannu eu data er mwyn amcangyfrif y nifer tebygol o bobl â namau penodol a’u gofynion presennol ac yn y dyfodol ynghylch tai.<br><br>Gall **data iechyd** gynnwys amcangyfrifon ar yr oedi wrth drosglwyddo o’r ysbyty i dŷ a/neu gymorth cymdeithasol yn ôl y math o nam a sut y gall tai helpu i liniaru oedi. Gall asesiadau data o’r fath fod yn bell o fod yn syml; fodd bynnag, dylent arwain at fwy o gynllunio strategol sy’n canolbwyntio ar y dinesydd, defnydd llawer gwell o adnoddau (arbedion) a chanlyniadau llawer gwell ar gyfer pobl anabl. |

## Cwestiynau allweddol

- Sut mae ein hawdurdod yn defnyddio data cyfredol a rhagamcanol am bobl anabl yn ein hardal ni i lywio strategaeth?
- A ydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gasglu tystiolaeth?

## Strategaeth dai: cynllunio gyda'n gilydd

Mae'n well diwallu gofynion tai pobl anabl (ac aelodau eraill o'r gymuned) pan fydd cynlluniau strategol yn cael eu cydlynu rhwng gwahanol sefydliadau, megis tai, gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr cymorth a chymdeithasau tai.

Hefyd dylai strategaethau tai gysylltu'n glir â strategaethau, cynlluniau a meysydd lleol a chenedlaethol eraill, er enghraifft:

- Strategaethau pobl hŷn
- Asesiadau Anghenion Poblogaeth a Chynlluniau Ardal o dan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Cynlluniau Lles Lleol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Strategaethau iechyd meddwl e.e. Llywodraeth Cymru, Atal trwy Ymyrraeth Gynnar: Helpu Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl i Ddod o Hyd i Gartref a'i Gadw 2014
- Strategaethau Digartrefedd
- Cynlluniau Cefnogi Pobl
- Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Fyw'n Annibynnol

## Enghraifft o arfer da

Mae 'Mewn Un Lle' yn gydweithrediad arloesol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, pum awdurdod lleol (gwasanaethau cymdeithasol a thai strategol) ac wyth Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Ngwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen).

Nod y fenter yw ei wneud yn haws cael cartrefi addas ar gyfer pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth, fel dewis arall i leoliadau preswyl y tu allan i'r sir neu aros yn ddiangen yn yr ysbyty (oedi wrth drosglwyddo gofal). Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd tenantiaeth mewn cymdeithas dai ac yn derbyn gofal a chymorth yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r rhaglen yn ymwneud â newid ymddygiad ymysg pob un o'r sefydliadau partner a gynhwysir yn y cydweithrediad, er mwyn cynyddu gweithio mewn partneriaeth, gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth a lles cyffredinol, a lleihau gwariant y sector cyhoeddus.

## Strategaeth dai: sut olwg sydd ar ‘dda’

Dylai strategaeth dai dda gwmpasu’r meysydd dilynol:

### ? Cwestiynau allweddol

- A yw EIA o’r strategaeth wedi’i gynnal? Beth yw canlyniadau’r EIA?
- A oedd pobl anabl yn ymwneud â datblygu’r strategaeth/cynllun hon/hwn?
- A yw tai hygyrch yn cael eu hadeiladu fel rhan o’r strategaeth/cynllun tai?

**Datblygu cartrefi a safonau newydd**

- Sut y byddwn ni’n sicrhau bod cartrefi yn y dyfodol yn diwallu gofynion pobl anabl yn yr ardal?
- Pa dai hygyrch fydd yn ofynnol gan ddatblygwyr? Sut y bydd hyn yn cael ei drafod, ei fonitro a’i orfodi?
- A ydyn ni wedi gosod targedau ar gyfer datblygu mathau arbennig o dai? Mae adroddiad ymchwiliad tai y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymell bod yr holl dai newydd yn cael eu hadeiladu hyd at safonau **Cartrefi Gydol Oes**, â 10% yn cael eu hadeiladu hyd at safonau hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn.

**Dyraniadau ac addasiadau**

- A oes gennym gofrestr dai hygyrch?
- Sut ydyn ni’n gwirio bod ein gwasanaeth addasu yn effeithiol?

**Digartrefedd a chymorth**

- Sut fydd y strategaeth dai yn cyfrannu at atal a lleihau digartrefedd a brofir gan bobl anabl?
- A yw newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio ar bobl anabl a’r hyn rydym yn ei wneud i fynd i’r afael â hyn?

## Asesiad Marchnad Tai Lleol

Asesiad Marchnad Dai Leol yw'r ddogfen allweddol sy'n darparu tystiolaeth o'r angen am ddatblygu gwahanol fathau o dai, gan gynnwys tai hygyrch, ar lefel awdurdod lleol. Bydd yn llywio datblygiad y strategaeth dai a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu LHMA, sy'n cael ei ddiweddaru bob dwy flynedd ag adolygiad mawr bob pum mlynedd. (Gweler hefyd Dechrau arni â'ch Asesiad Marchnad Dai Leol).

Mae'r rhan fwyaf o LHMAau yn canolbwyntio ar gynhyrchu amcangyfrifon o unedau tai ac ystafelloedd gwely cyffredinol sydd eu hangen i ddiwallu gofynion cyffredinol y boblogaeth. Mae rhwystrau fel adnoddau a sgiliau yn cael eu crybwyll yn aml. Fodd bynnag, dylai'r model presennol fod yn sail dda ar gyfer datblygu model LHMA manylach, sy'n mynd i'r afael â gofynion pobl anabl. Am awgrymiadau ynghylch pa ddata a thystiolaeth y gellid eu defnyddio i lywio LHMA.

## Astudiaeth achos

### Cyngor Rhondda Cynon Taf

Yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf, bydd yr LHMA a gwblhawyd yn ddiweddar yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol cyn bo hir, a bydd yn llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae asesiad o anghenion tai hygyrch yn ffurfio rhan o'r LHMA hwn.

Mae aelodau'r Cabinet wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r LHMA ac aethpwyd â nhw ar ymweliadau safle â chartrefi fforddiadwy a hygyrch. Ystyrir ei fod yn hollbwysig bod cynghorwyr yn deall y rôl ganolog mae'r LHMA yn ei chwarae er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni ei swyddogaeth dai strategol a 'chael yr holl bartïon at ei gilydd'.

## ? Cwestiynau allweddol

- Sut y gallwn ni asesu a darparu tystiolaeth ar gyfer anghenion tai pobl anabl fel rhan o LHMA ein hawdurdod?
- A oes gan ein hawdurdod gofrestr dai hygyrch ac a yw'r data o hyn yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer gofynion tai pobl anabl yn yr LHMA neu ddatblygiadau tai penodol?
- A yw ein hawdurdod yn defnyddio tystiolaeth/data gan adrannau a sefydliadau eraill, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, er mwyn asesu lefel yr angen?.
- Yn eich rôl flaenllaw, a allwch hwyluso ymgysylltu â phobl anabl yn eich ardal chi er mwyn llywio'r asesiad anghenion ar gyfer yr LHMA?
- Yn eich rôl flaenllaw, beth ydych chi'n ei wybod am ofynion tai pobl anabl yn eich ward a sut allwch chi gyfrannu'r wybodaeth honno at ddatblygu'r LHMA?

## Asesiad Marchnad Dai Leol: Gwybodaeth am y stoc cyfredol

Mae ymwybyddiaeth ynghylch hygyrchedd tai yn amrywio rhwng Awdurdodau lleol. Yn nodweddiadol, mae awdurdodau lleol yn gwybod llawer llai am hygyrchedd cymdeithas dai, tai rhent preifat a thai preifat yn eu hardal.

Gall datblygu cofrestr tai hygyrch wella gwybodaeth a defnydd o'r stoc tai hygyrch cyfredol. Gall awdurdodau lleol rannu arfer da yn y maes hwn trwy Rwydwaith Tai Hygyrch Tai Pawb.

### ✔ Enghraifft o arfer da

Mae Cyngor Casnewydd wrthi'n diweddaru ei LHMA. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i asesu nifer y bobl anabl yn yr ardal, yn ogystal â chysylltu â gwasanaethau cymdeithasol i asesu'r angen am dai arbenigol/hygyrch.

## Cynllun Datblygu Lleol

Mae Cynllun Datblygu Lleol (LDP) yn nodi polisiau cynllunio lleol ac yn nodi sut y defnyddir tir, gan benderfynu pa dai fydd yn cael eu hadeiladu ym mhle. Wrth baratoi LDPs, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddilyn polisi a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

– Polisi Cynllunio Cymru (Pennod 9 Tai: 'dylai awdurdodau cynllunio lleol hyrwyddo datblygiadau tai '**di-rwystr**', er enghraifft, wedi'u hadeiladu hyd at Safonau Cartrefi Gydol Oes')

– Nodiadau Cyngor Technegol fel TAN 12: Dylunio: Mae'n rhestru amcan allweddol o ddylunio da fel 'hygyrchedd' - rhwyddineb mynediad i bawb i'r datblygiad ac i bob elfen o fewn y safle

Bydd rhoi ystod briodol o bolisïau a chyfarwyddyd ar waith yn llywio'r broses o wneud cais cynllunio trwy wneud y gofynion yn llawer eglurach i ymgeiswyr a rhoi cymorth cadarn i swyddogion cynllunio wrth drafod cynigion neu herio cynlluniau annerbyniol.

### ! Awgrymiadau gorau: Datblygu polisïau o fewn yr LDP

– Gofyn i swyddogion cynllunio gynnwys y gymuned wrth baratoi Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Ddylunio Cynhwysol (mae 'Mynediad i Bawb', a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint, yn enghraifft dda)

– Defnyddio ofynion 'egwyddor datblygu gynaliadwy' Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gefnogi dylunio cynhwysol a'r angen i ystyried lles y gymuned yn y dyfodol.

– Adolygu polisïau tai i sicrhau eu bod yn ystyried yr angen am gartrefi hygyrch ac addasadwy, a bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i hygyrchedd mwynderau lleol.

– Ystyried annog datblygu a gweithredu Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar gyfer tai a chymdogaethau hygyrch.

– Ystyried a ddylai'r **holl** dai (gan gynnwys tai preifat) gael eu hadeiladu hyd at safonau Cartrefi Gydol Oes.

[1]Mae enghreifftiau o gamddehongli safonau Cartrefi Gydol Oes fel, er enghraifft, bod cypyrddau mawr yn cael eu cynnwys ar lannau llawr cyntaf er mwyn darparu ar gyfer lifft trwy'r llawr yn y dyfodol ond mae'r ystafell ymolchi yn rhy fach o ran mynediad i gadeiriau olwyn heb ail-ddylunio'r ystafelloedd gwely yn llwyr.

### Cynllun Datblygu Lleol: dyletswyddau cydraddoldeb

Yn yr un modd â strategaethau tai, mae'n rhaid i LDPs gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb (rhaid cynnal EIA a dylai'r broses ymgysylltu â phobl anabl.

Mae Polisi Cynllunio Cymru 3.3.1 yn nodi bod 'angen ymgynghori â Grwpiau Mynediad i'r Anabl drwy gydol y broses gynllunio defnydd tir'.

## Datblygu a chynllunio tai

### Ystyriaethau cynllunio

Rhaid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd), y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer yr ardal honno (sy'n ymdrin â materion trawsffiniol, megis tai) a'r LDP.

Ni ellir gwrthod cynnig cynllunio dim ond oherwydd bod llawer o bobl yn ei wrthwynebu. Rhaid asesu pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun, â swyddogion cynllunio yn cynnal ymarfer cydbwysedd cynllunio. Os gwrthodir cais, rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod oherwydd ei fod yn gwrthdaro â'r cynllun datblygu.

Hefyd, ni ddylai ystyriaethau perthnasol nodi y gellir penderfynu ar y cais yn ffafriol, neu na ellir lliniaru datblygiad annerbyniol trwy rwymedigaethau cynllunio (gweler isod).

Mae'r **ystyriaethau perthnasol** dilynol yn berthnasol yn y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio:

- Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)
- polisïau cynllunio lleol/polisi drafft
- effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y cynnig (cynaliadwyedd – ynghylch gwella lles ac ansawdd bywyd i genedlaethau'r dyfodol)
- mynediad a darparu seilwaith ar gyfer y safle
- dyluniad y cynnig
- hanes cynllunio'r safle
- barnau sefydliadau ac unigolion, mewn perthynas â materion cynllunio perthnasol (cynnwys grwpiau mynediad - gweler Polisi Cynllunio Cymru).

- Dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau tai hygyrch trwy negodi yn ystod y broses gais cynllunio trwy **Rwymedigaethau Cynllunio Adran 106**. Gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio i liniaru effeithiau datblygiad nad yw'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu. Fodd bynnag, gellir rhoi rhwymedigaethau cynllunio Adran 106 dim ond lle maent yn cydymffurfio ag Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliad 122 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r rhain yn ei wneud yn ofynnol y dylai rhwymedigaethau cynllunio gael eu cynnwys dim ond lle maent yn:
- angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio
- uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad, ac
- yn gysylltiedig yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa ac yn garedig i'r datblygiad.

## Cyfarwyddyd ychwanegol >

Cyflwynwyd Datganiadau Dylunio a Mynediad Datganiadau Dylunio a Mynediad Llywodraeth yng Nghymru **Llywodraeth Cymru (DAS) (2017)** i helpu i sicrhau bod ansawdd dylunio a mynediad cynhwysol yn cael ystyriaeth ddigonol yn y broses gynllunio.

**Anabledd Cymru** Cynllunio ar gyfer Mynediad Cynhwysol yng Nghymru: Pecyn Cymorth Arfer Da

Adnodd ar-lein i gynllunwyr i'w galluogi i gynllunio ar gyfer mynediad cynhwysol ac i ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau mynediad ac anabledd.

Cartrefi ar gyfer pobl â demensia a cholli golwg - Canllaw i ddylunio a darparu amgylcheddau diogel a hygyrch

Cartrefi ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a cholli golwg - Canllaw i ddarparu amgylcheddau diogel a hygyrch

## ? Cwestiynau allweddol

A ystyriwyd dyluniad cynhwysol yn y briff prosiect cyntaf? Mae hyn yn cynnwys:

- ôl troed a chyfeiriadedd datblygiad ar y safle i leihau'r llethrau wrth nesáu at adeiladau
- y manylion tirlunio
- mynediad i fwynderau lleol, arosfannau bysiau, ac ati, a wasanaethir gan lwybrau hygyrch
- ym mhob cam o'r broses ddatblygu, o'i chychwyn i'w chwblhau

A oes EIA?

- A yw hyn yn rhoi sylw i unrhyw faterion dylunio cynhwysol a allai effeithio ar amcanion cydraddoldeb?

A yw defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr wedi cael eu cynnwys neu eu hymgynghori ym mhob cam?

- Sut ystyriwyd eu barn yn y dyluniad?
- A oes strategaeth ymgynghori a chyfathrebu ar waith o'r cychwyn cyntaf?

A yw'r ymgeisydd (ar gyfer datblygiadau o 10 anheddle neu fwy neu lle mae ardal y safle o 0.5 ha neu fwy) wedi ystyried gofynion pobl anabl yn eu **hymgynghoriad cymunedol statudol?**

A oes angen cael cyngor gan swyddog mynediad yr awdurdod lleol a/neu ymgynghorydd mynediad arbenigol?

A yw Datganiad Dylunio a Mynediad wedi'i baratoi ar gyfer y cam cynllunio?

- A yw hyn yn mynd i'r afael â sut mae defnyddwyr yn:
- cael mynediad o'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus
- cyrchu a defnyddio unrhyw ddarpariaeth barcio
- cyrchu a defnyddio tir y cyhoedd, gan gynnwys meysydd lle agored preifat a chyhoeddus
- trafod unrhyw newidiadau o ran lefel
- eu cyfeirio eu hunain a dod o hyd i'w ffordd o gwmpas y datblygiad?
- Os nad oes Datganiad Dylunio a Mynediad, sut yr arddangosir y materion hyn?

## Ystyriaethau datblygu ychwanegol

### Rheoliadau Adeiladu

Mae llawer o faterion mynediad heb gael eu hystyried yn ystod camau cynllunio ac, yn lle hynny, maent yn cael eu hadolygu dim ond yng nghyd-destun Rheoliadau Adeiladu; fodd bynnag, mae'r camau cynllunio a Rheoliadau yn dylanwadu ac yn effeithio ar ddarparu cynlluniau tai cynhwysol.

Mae sicrhau bod yr holl faterion mynediad yn cael eu cwmpasu rhwng cynllunio a rheoli adeiladu yn galw am gysylltiad rheolaidd rhwng y ddwy ddisgyblaeth hyn. Bydd cysylltu â'ch grŵp mynediad lleol ac ymgynghori â'ch swyddog mynediad/cydraddoldeb yn helpu â hyn (gweler pennod 5 ar ymgysylltu).

**Mae'n bwysig nodi nad yw cydymffurfio â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu o reidrwydd yn cyfateb i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.**

> Gall datganiad mynediad ar gyfer datblygiad preswyl helpu i sicrhau bod y gofynion i anheddau fodloni safonau mynediad Rhan M, neu safonau Cartrefi Gydol Oes, yn cael eu hategu gan seilwaith a chysylltiadau cymunedol hygyrch. Mae hyn yn helpu i greu cymdogaethau gydol oes.

### Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei wneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol wella eu stoc tai hyd at lefel dderbyniol erbyn 2020. Mae Rhan VII y ddogfen (tudalennau 28-32) yn egluro'r angen i sicrhau bod llety, cyn belled â phosib, yn diwallu anghenion yr aelwyd, gan gynnwys gofynion pobl anabl.

### Gofynion Ansawdd Datblygu

Mae Anghenion Ansawdd Datblygu (DQR) yn mynnu bod yr holl dai cymdeithasol **newydd** a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hadeiladu hyd at safonau Cartrefi Gydol Oes, a 'lle mae'n ymarferol a chost-effeithiol i wneud hynny, dylid ystyried ymgorffori rhai neu bob un o'r [Safonau Cartrefi Gydol Oes] mewn i anheddau (presennol).'

Mae'r safonau wedi'u cynllunio i gynnwys nodweddion sy'n ychwanegu at gysur a chyfleustra'r cartref, ac yn cefnogi gofynion newidiol unigolion a theuluoedd ar wahanol adegau bywyd. Mae hyn yn cynnwys gofynion defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â nam ar eu golwg (gweler: RNIB Gweladwy Well). Enghreifftiau o nodweddion o'r fath fyddai adeiladu cartrefi â drysau a waliau lletach sy'n ddigon cryf i osod rheiliau gafael rhag ofn y bydd y perchnogion eu hangen yn y dyfodol. Mae'r cartrefi hyn yn wahanol i **gartrefi sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn**. Yn amlwg, mae addasu eiddo ar ôl iddo gael ei adeiladu yn llawer mwy drud ac yn llai effeithiol.

## Astudiaeth achos

Fel arfer, dim ond tai cymdeithasol newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n gorfod cydymffurfio â DQR. Yng Nghyngor Casnewydd, mae DQR wedi cael ei gynnwys yn y polisi cynllunio lleol ar gyfer cymdeithasau tai. Pan fydd cymdeithasau tai yn datblygu tai fforddiadwy sy'n cydymffurfio â TAN2, gan gynnwys perchnogaeth tai cost isel, rhent canolraddol a pherchnogaeth ar y cyd, mae gofyn iddyn nhw gydymffurfio â DQR. Mae'r gofyniad yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru, trwy gynnwys deiliadaethau heblaw am dai cymdeithasol wedi'u rhentu.

## Stori bersonol

### Ruby

Mae Ruby yn byw yn Ne Cymru gyda'i mab Cody, sydd â chyflwr cyhyrau dirywiol o'r enw Nychdod Cyhyrol Duchenne. Ar hyn o bryd mae Cody yn ei gael yn anodd mynd i fyny'r grisiau ar ei ben ei hun, a bydd hyn ond yn gwaethygu wrth i amser fynd rhagddo ac wrth i'w salwch ddatblygu.

"Rwy'n poeni'n fawr am beth fydd yn digwydd os bydd rhaid i ni aros yma unwaith y bydd Cody yn gorfod defnyddio cadair olwyn. Fydd e ddim yn gallu cysgu yn ei ystafell wely, na defnyddio'r ystafell ymolchi yn breifat, a bydd yr effaith ar ei fywyd, ein bywydau, yn anferth. Mae datblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu, ond nid yw'r cyngor na'r datblygwyr preifat yn adeiladu digon o gartrefi i ddarparu ar gyfer teuluoedd fel ni sydd eu hangen. Rydyn ni'n flaenoriaeth aur ar restr y gymdeithas dai leol, ond does dim un cartref ar gael yn yr ardal sy'n addas. Dim ond 27 mlynedd yw disgwyliad oes rhywun sy'n byw â Duchenne. Ni ddylid gwastraffu ein hamser gwerthfawr gyda'n gilydd yn cael trafferth i fynd allan o'r drws ffrynt, neu fynd i lawr y grisiau, dylen ni allu mwynhau ein bywydau gyda'n gilydd tra gallwn ni. "

Gwnaeth Ruby ffilm yn 2015 o'r enw Ruby's Home Truth. Ers hynny, mae Ruby a Cody wedi symud i mewn i dŷ sy'n addas i'w hanghenion; Fodd bynnag, mae'r ffilm yn dal yn berthnasol oherwydd gwyddom fod llawer mwy o bobl fel Ruby a Cody yno!



# Sut olwg sydd ar 'dda' mewn ymarfer

Bydd yr adran hon yn esbonio sut mae polisïau a strategaethau tai a chynllunio yn trosi i ymarfer.

Bydd yn canolbwyntio ar:

- sut mae cartrefi hygyrch presennol yn cael eu dyrannu trwy **gofrestrau tai**
- sut mae cartrefi cyfredol yn cael eu **haddasu** i ddiwallu gofynion pobl anabl
- sut mae'r gofynion hynny'n cael eu diwallu ar hyn o bryd yng nghartrefi'r **sector preifat**
- y cynlluniau cymorth sydd ar gael

## Cofrestrau tai hygyrch

Yn aml mae pobl anabl yn profi anhawster wrth ddod o hyd i lety addas sy'n bodloni eu gofynion, nid yn unig oherwydd prinder tai hygyrch, ond hefyd y diffyg gwybodaeth fanwl ynghylch hygyrchedd ar gyfer cartrefi sydd ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i sefydlu a chynnal **cofrestr tai hygyrch**.

**Mae cofrestrau tai hygyrch** yn cadw cofrestr fanwl o bobl anabl sydd angen cartrefi hygyrch, ynghyd â chofrestr fanwl o eiddo hygyrch, eu lleoliad a'u nodweddion (neu lefelau a mathau o hygyrchedd). Mae hyn yn galluogi paru pobl a thai addas yn effeithiol. Mae rhai cofrestrau ar wahân i restrau aros cyffredinol; mae eraill **wedi'u hymgorffori** o fewn rhestrau aros (defnyddir categorïau i nodi pobl ag anghenion hygyrchedd).

Mae cofrestrau tai hygyrch yn ddull gwych o wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan osod cartrefi wedi'u haddasu/hygyrch i bobl sydd eu hangen. Gallan nhw leihau'r angen i:

- gael gwared ar addasiadau sefydledig a allai fod o fudd i ymgeiswyr eraill sydd ag anghenion hygyrchedd
- gosod addasiadau mewn cartref heb ei addasu (os oedd hwn wedi cael ei osod i berson ag anghenion hygyrchedd)

Gallai hyn alluogi arbedion cyllideb ar **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Grantiau Addasiadau Corfforo**l.

Nid yw cofrestru ar y gofrestr tai hygyrch yn golygu na all ymgeiswyr gofrestru ar y rhestr aros gyffredinol (lle mae'r rhain ar wahân). Mae gwahanu ceisiadau gan bobl anabl fel hyn yn cyfyngu ar eu hawl i ddewis a gallant ymestyn amseroedd aros o ddifrif mewn ardaloedd lle mae prinder hygyrchedd gwirioneddol.

### ? Cwestiwn allweddol

- Faint mae ein hawdurdod yn ei wario ar addasiadau bob blwyddyn? A allen ni wneud arbedion trwy gael cofrestr tai hygyrch?

## Bydd cofrestr tai hygyrch effeithiol yn cynnwys yr elfennau dilynol:

1. Staff neu staff arbenigol sydd wedi'u hyfforddi a sydd â lefel o arbenigedd mewn perthynas â gofynion mynediad pobl anabl, yn arbennig: hyfforddiant cydraddoldeb anabledd a dylunio cynhwysol
2. Agored a hygyrch i wneud cais
3. Cyngor a gwybodaeth am dai i ymgeiswyr mewn perthynas ag argaeledd tai hygyrch a chyfarwyddyd ar feysydd o ddewis
4. Polisïau, gweithdrefnau, a chyfarwyddyd clir a thryloyw sy'n cwmpasu'r meysydd dilynol:
   > paru pobl a thai
   > ymgeisio, gan gynnwys y broses a'r meini prawf
   > asesu a dosbarthu angen (tai, addasu a mynediad)
   > blaenoriaethu ymgeiswyr (ffafriaeth), rheoli rhestrau aros, atgyfeiriadau digartrefedd ac ati.
   > rheoli ac adolygu rhestrau aros
   > asesu eiddo (mynediad ac addasiadau)
   > dosbarthu eiddo (codio i ddynodi lefel hygyrchedd ac addasiadau)
5. Prosesau safonau, monitro ac adolygu clir ar gyfer:
   > amseroedd aros ymgeiswyr (wedi'u rhannu'n broses e.e.ymgeisio, asesu, aros am gartref)
   > amseroedd di-rym
   > dyraniadau
   > cwynion ac apeliadau
   > boddhad (cwsmer)

DS: Bydd rhai o'r safonau uchod yn wahanol ar gyfer **gosodiadau sy'n seiliedig ar ddewis.**

Mewn gosodiadau sy'n seiliedig ar ddewis, bydd ymgeiswyr yn gwneud cais am eiddo sy'n dod ar gael. Felly, mae'n hynod bwysig bod eu nodweddion hygyrchedd yn ymddangos ar hysbysebion. Gallai hyn gynnwys lluniau ychwanegol o wybodaeth am y cartrefi sydd ar gael, a chyfleoedd ychwanegol i'w gweld.

## Enghraifft o arfer da

Byddai **ymagwedd arfer gorau tuag at gofrestrau tai hygyrch** yn cwmpasu'r holl elfennau uchod, yn ogystal â:

1. Proses glir a chyffredin rhwng yr holl ddarparwyr tai lleol ar sut y byddant yn cyrraedd penderfyniadau i gael gwared ar addasiadau (mewn ymgynghoriad â'r gofrestr tai hygyrch).
2. Cyngor tai cynhwysfawr ar gyfer ymgeiswyr anabl gan staff arbenigol.
3. Mae data anghenion tai sy'n cael ei gadw gan y gofrestr yn bwydo i'r strategaeth dai, LDP, LHMA, a dogfennau cynllunio a thai lleol eraill.
4. Gwaith allgymorth i ysbytai lleol (yn arbennedig â thimau rhyddhau) a hyrwyddo'r gwasanaeth yn gyffredinol.

## Cwestiynau allweddol

– A ydyn ni'n gweithredu cofrestr tai hygyrch?

– A yw pobl anabl yn aros am fwy o amser i gael eu hailgartrefu nag ymgeiswyr eraill?

– A ydyn ni'n cynnwys pobl anabl wrth asesu effeithiolrwydd - a gwella - y gofrestr tai hygyrch (neu'r system ddyrannu)?

– A oes cosb os yw pobl anabl yn gwrthod eiddo am resymau hygyrchedd?

**Os yw ein hawdurdod lleol yn gweithredu cynllun gosod tai yn seiliedig ar ddewis:**

– A oes ffordd i bobl anabl gael eu paru â thai hygyrch/addasedig presennol?

– A oes ffordd i bobl anabl wybod a fydd eiddo yn diwallu eu hanghenion mynediad ai peidio?



## Astudiaeth achos: : Cartrefi Hygyrch Caerdydd

### Cofrestr tai hygyrch

Mae Cartrefi Hygyrch Caerdydd (CAH), a sefydlwyd ym mis Medi 2002, yn gofrestr tai ganolog ar gyfer pobl ag anableddau corfforol sydd am symud. Mae CAH yn gweithio'n agos â'i bartneriaid (yr awdurdod lleol a saith cymdeithas dai) i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i bobl sy'n chwilio am dai addasedig neu hygyrch. Ariannwyd CAH yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ond erbyn hyn mae ei bartneriaid yn ei ariannu'n llawn. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod yr eiddo addasedig a hygyrch sydd ar gael yn cyd-fynd orau â'r bobl hynny sydd eu hangen.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig ailgartrefu, asesiadau, cyngor a chymorth. Mae hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau a sefydliadau â'r bwriad o ailgartrefu'r cleient neu gael asesiad therapydd galwedigaethol, er mwyn gosod addasiadau. Amcan sylfaenol y gwasanaeth yw helpu pobl anabl i adleoli/aros yn eu cartrefi, a pharhau i fwynhau byw'n annibynnol.

## Stori bersonol

### Ieuan

Roedd Ieuan wedi cael damwain traffig ar y ffyrdd yn 2016. Yn dilyn arhosiad hir a chyfnod adsefydlu yn yr ysbyty, atgyfeiriwyd Ieuan i Cartrefi Hygyrch Caerdydd gan ei weithiwr cymdeithasol. Ni allai Ieuan ddychwelyd i'w eiddo blaenorol oherwydd nad oedd yn gallu defnyddio'r grisiau cymunedol. Cafodd ei asesu a'i roi ar y rhestr aros tai hygyrch ar ddiwedd mis Mehefin 2016. Cynigwyd fflat llawr gwaelod dwy ystafell wely i Ieuan ym mis Awst 2016. Mae ef a'i ofalwr wedi ymgartrefu yn yr eiddo ac yn mwynhau'r mwynderau lleol. Dywedodd Ieuan fod y symudiad o'r ysbyty i'w eiddo presennol yn amser anodd a phryderus, ond mae bellach yn mwynhau byw'n annibynnol mewn amgylchedd diogel.

## Addasiadau

Gall addasiadau cartrefi alluogi byw'n annibynnol, gwella iechyd a lles, ac atal derbyniadau i leoliadau preswyl neu ymweliadau brys i ysbytai.

Mae cost gyfartalog cwymp yn y cartref sy'n arwain at doriad clun yn agos at £29,000 - dros 100 o weithiau'n fwy na chost gosod rheiliau llaw a rheiliau gafael amserol (Llywodraeth Cymru 2017).

Mae dros £50 miliwn yn cael ei wario bob blwyddyn yng Nghymru ar ddarparu addasiadau; fodd bynnag, yn ogystal â chostau dynol amlwg a difrifol byw mewn tai anaddas, mae mwy na £30 miliwn yn cael ei wario'n flynyddol ar ryddhau gohiriedig o ysbytai, a £67 miliwn ar drin cwympiadau.

Ar hyn o bryd, mae nifer o grantiau sy'n ariannu addasiadau ar gyfer gwahanol ddeiliadaethau, ac mae pob un ohonynt wedi'u cwmpasu o fewn un system: **Galluogi - Cymorth i Fyw'n Annibynnol** (a gyflwynwyd yn 2017). Mae'r system, fel y'i disgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru, yn golygu galluogi pobl anabl a phobl eraill i gael mynediad gwell i gyllid ar gyfer addasiadau amrywiol.

### Mae Galluogi yn cwmpasu'r grantiau dilynol:

- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol a thenantiaethau eraill (a ariennir gan awdurdodau lleol)
- Grantiau Addasiadau Corfforol (PAG) ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai (a ariennir gan Lywodraeth Cymru)
- Rhaglen Addasu Ymateb Cyflym (a ddarperir gan Asiantaethau Gofal a Thrwsio). Mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio hefyd yn darparu gwasanaeth 'craidd' o gymorth gweithiwr achos i asesu anghenion a gofynion unigolyn ar gyfer gofynion addasu tai.

Ni all y cymdeithasau tai hynny sydd â stoc a drosglwyddwyd o'u hawdurdod lleol gyrchu PAGs ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallant gyrchu DFGs gan awdurdodau lleol ac yn aml maent yn cynnal cyllidebau addasiadau ar wahân. Yng Nghymru, mae 90% o geisiadau am addasiad yn cael eu derbyn ar gyfartaledd, ac mae'r rhan fwyaf o wrthodiadau o ganlyniad i brofion modd. Ar hyn o bryd, dim ond DFGs yng Nghymru sy'n cael prawf modd. Nid oes angen prawf modd ar gyfer teuluoedd â phlant dibynnol anabl neu bobl ifanc dan 19 oed.

## Addasiadau: mesurau llwyddiant

Mae amrywiadau mawr o ran amseroedd aros ar gyfer addasiadau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol a rhwng gwahanol grantiau, â DFGs fel arfer yn cymryd yr amser hwyaf. Dangosodd ymchwil Llywodraeth Cymru o 2015 mai'r gost gymedrig o addasu oedd £3,887, a'r amser cyflawni cymedrig oedd 176 o ddiwrnodau (er bod llawer iawn o amrywiant yn y ffigur hwnnw).

Gellir gweld y canlyniadau gorau a chyflymaf lle mae gan adrannau tai (e.e. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) eu therapyddion galwedigaethol eu hunain sy'n asesu gofynion pobl anabl ar gyfer addasiadau, neu lle mae'r therapyddion yn cael eu cyflogi o fewn y gofrestr tai hygyrch a'u rhannu gan bartneriaid (fel yng Nghartrefi Hygyrch Caerdydd).

### ? Cwestiynau allweddol

- Beth yw'r amser aros cyfartalog yn ein hawdurdod ar gyfer addasiadau, a sut mae'n cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol?
- A oes gwahaniaethau rhwng amseroedd aros tenantiaid awdurdod lleol a thenantiaid lleol eraill cymdeithasau tai? A oes esboniad i'r rhai hynny? Beth ellir ei wneud yn ymarferol i gyflymu'r prosesau addasu arafach?
- Ydyn ni'n mesur lefelau boddhad dinasyddion anabl sy'n derbyn addasiadau? Ydyn ni'n mesur effaith addasiadau ar fywydau pobl anabl (o safbwynt sy'n canolbwyntio ar y dinesydd)?
- Sut ydyn ni'n ymgysylltu â phobl anabl i asesu a gwella effeithiolrwydd ein system addasiadau?
- Sut ydyn ni'n defnyddio addasiadau i bobl sy'n awtistig neu sydd â chyflwr iechyd meddwl? (e.e. ystafelloedd tawel, inswleiddio sŵn)
- A yw ein hawdurdod yn adlewyrchu amcanion cenedlaethol y Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol o fewn cynlluniau a strategaethau lleol, gan gynnwys cynlluniau cydraddoldeb?

# Astudiaeth achos: Cartrefi Hygyrch Caerdydd

## Atgyfeirio am addasiadau

Mae Cartrefi Hygyrch Caerdydd (CAH) yn darparu gwasanaeth tai cyfannol, gan gynnwys rheoli rhestr dai ganolog ar gyfer pobl anabl, asesiadau therapydd galwedigaethol, cyngor a chymorth tai. Mae hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth â nifer o gymdeithasau tai, asiantaethau a sefydliadau gwirfoddol i ddod o hyd i atebion cadarnhaol i faterion tai pobl anabl. Daeth y prosiect yn weithredol yn 2002 ac ers hynny mae wedi ailgartrefu dros 2,500 o gleientiaid yn llwyddiannus.

Rhan o'r hyn mae CAH yn ei wneud yw rheoli'r broses atgyfeirio ar gyfer PAGau, yn amrywio o estyniadau cartref i reiliau gafael. Mae hyn yn golygu cymryd yr atgyfeiriad gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid a threfnu ymweliadau ac asesiadau therapydd galwedigaethol fel y gall cleientiaid gael addasiadau wedi'u gosod yn eu heiddo.

Mae CAH yn parhau i reoli'r gwasanaeth atgyfeirio PAG, sydd wedi gweld nifer gynyddol o atgyfeiriadau o flwyddyn i flwyddyn, gan amlygu'r angen i awdurdodau lleol eraill a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig atgynhyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda'i bartneriaid i nodi safleoedd newydd ar gyfer adeiladau newydd. Cyflawnir hyn trwy gael cofrestr ganolog o ymgeiswyr anabl, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch nam pob person, yr angen symud, a'r ardaloedd maent yn fodlon symud iddynt. Mae CAH yn gweithio'n agos gyda'r tîm Iechyd Plant ac Anabledd a'r Byrddau Iechyd Lleol wrth ymdrin ag achosion plant a throsglwyddo gofal wedi'i oedi, gan arwain at ganlyniadau positif wrth leoli llety wedi'i addasu'n briodol.

## Stori bersonol

### Helen

Llithrodd Helen yn ei bath ddwywaith o fewn wythnos; fe wnaeth yr ail lithriad arwain at gael ei derbyn i'r ysbyty. Wedi cysylltu â CAH, hysbyswyd y nyrs ryddhau o'r opsiynau sydd ar gael. Trefnwyd ymweliad therapydd galwedigaethol i'r eiddo gyda'r cleient, a dywedodd y therapydd y dylid gosod cawod a rampiau mynediad lefel i'r eiddo. Anfonwyd yr asesiad wedyn i'r landlord i gwblhau'r broses dendro. Gosodwyd y cawod mynediad lefel o fewn tair wythnos a'r rampiau o fewn pedair wythnos.

Ar ymweliad diweddar â Helen yn ei chartref, dywedwyd wrth CAH bod gosod y cawod wedi caniatáu i Helen ofalu am ei hylendid personol heb y pryder a'r straen ynghylch cwympo, a bod y ramp wedi ei galluogi i gael mynediad i'r eiddo heb orfod dringo grisiau.

## Y sector preifat

Mae'r sector preifat yn cynnwys tai berchen-feddianwyr a llety a rent yn breifat, ac mae'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o dai yng Nghymru. Mae'n chwarae rôl gynyddol bwysig yn y ddarpariaeth o lety hygyrch ac addasadwy ar gyfer y rhai hynny sydd ei angen.

Gall awdurdodau lleol osod targedau neu ofynion i ddatblygwyr ddarparu nifer benodol o gartrefi addasadwy hygyrch. Mae angen mecanweithiau monitro cadarn ar gyfer hyn, er mwyn sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu diwallu ac nad yw arian yn cael ei wastraffu ar ddylunio o ansawdd gwael. Yn benodol mewn perthynas â thai berchen-feddianwyr, gall awdurdodau lleol ofyn i gartrefi hygyrch gael eu darparu gan ddatblygwyr preifat, lle bo'n briodol, trwy'r weithdrefn gais cynllunio, a'u sicrhau naill ai trwy amod neu drwy rwymedigaethau cynllunio o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## ? Cwestiynau allweddol

- A yw ein hawdurdod yn gofyn i ddatblygwyr preifat ddatblygu tai hygyrch fel rhan o'u targedau, a sut mae'r rhain yn cael eu monitro a'u hadrodd?
- A ydyn ni'n defnyddio'r sector rhentu preifat i gartrefu pobl anabl?
- Pa wybodaeth rydyn ni'n ei darparu i landlordiaid preifat ynghylch arian ar gyfer addasiadau i'w tenantiaid?

**Cwestiynau atodol:**

- Os ydyn ni'n cartrefu pobl anabl yn y sector rhentu preifat, a ydyn ni'n darparu cyngor, cyfarwyddyd a/neu hyfforddiant i'r landlord ar ofynion tenantiaid?
- Sut ydyn ni'n asesu addasrwydd eiddo a rentir yn breifat ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu neu gyflyrau iechyd meddwl?
- A ydyn ni wedi ystyried cynnwys eiddo a rentir yn breifat /preifat ar y gofrestr tai hygyrch?
- Os yw tai a rentir yn breifat yn cael eu hystyried, beth yw hyd y denantiaeth a gynigir a pha mor ddiogel ydyw?

Mae tystiolaeth gynyddol y gall mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol, megis pobl anabl, â'r cymorth/gwybodaeth gywir, gael eu cartrefu'n briodol yn y sector rhentu preifat.

Erbyn hyn mae'n rhaid i landlordiaid ac asiantaethau gosod preifat yng Nghymru fod wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru, sy'n gosod gofynion penodol ynghylch addasrwydd unigolyn i fod yn landlord, ond nid yw'n cynnwys arolygiad o'r eiddo maent yn berchen arno.

Hefyd mae nifer o **asiantaethau gosod cymdeithasol** (e.e. Gallu Gwneud Cadwyn, Adore Tai Taf neu Gosodiadau Syml yn Sir Gaerfyrddin). Mae'r rhain yn debyg i asiantaethau gosod preifat ond fel arfer maent yn cael eu rhedeg gan gymdeithas dai neu awdurdod lleol. Maent yn rheoli ac yn gosod eiddo rhentu preifat i bobl megis tenantiaid sy'n derbyn budd-dal tai neu rai sydd dan fygythiad digartrefedd.

## ✓ Enghraifft o arfer da

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn defnyddio rhai tai addasedig wedi'u rhentu'n breifat trwy ei asiantaeth gosodiadau cymdeithasol - Gosodiadau Syml. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor gael rhywfaint o reolaeth dros osodiadau am gyfnod cytunedig (pum mlynedd fel arfer), gan ei wneud yn fwy tebygol y bydd yr addasiad o fudd i berson anabl arall yn y dyfodol.

Gall rhai landlordiaid preifat fod yn amharod i osod addasiadau oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â cheisio sicrhau tenantiaid newydd ag anghenion tebyg, pe byddai tenantiaid anabl yn symud allan. Er mwyn gwrthsefyll hyn, mae rhai awdurdodau lleol bellach yn cynnig cymhellion a chymorth i landlordiaid preifat, gan gynnwys cyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant. Gall y pecynnau hyn gynnwys cyngor penodol sy'n ymwneud â phroblemau mae pobl anabl yn eu hwynebu.

Ni fydd tai'r sector rhentu preifat yn briodol ar gyfer pob ymgeisydd. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol ystyried risgiau posibl i unrhyw ymgeisydd sy'n agored i niwed wrth gynnig/canfod llety a rennir, gan y bydd angen iddynt fod yn sensitif i'r rhai a allai wynebu aflonyddu neu gamfanteisio gan bobl sy'n rhannu'r eiddo a'u hymwelwyr.

## Cymorth

- Mae amrywiaeth o gynlluniau cymorth ar gael a all gynnig cymorth dros dro neu barhaol i unigolyn.
- Mae cymorth ar gael i berchnogion tai, tenantiaid y cyngor, tenantiaid cymdeithasau tai a thenantiaid preifat, ac er bod rhai yn derbyn hunanatgyfeiriadau, mae llawer yn mynnu atgyfeiriad gan asiantaeth statudol neu wirfoddol.
- Mae rhai cynlluniau cymorth ar gael yn rhad ac am ddim i'r unigolyn, tra bod eraill yn galw am brawf modd.
- Mae ymgysylltu, cydweithio a chydweithredu gwell rhwng yr holl randdeiliaid yn arwain at well wybodaeth cynllunio a darpariaeth o dai hygyrch.

## Astudiaeth achos

Mae Drysau Agored yn brosiect a ariennir gan y Loteri Fawr, wedi'i gynnal gan Tai Pawb, sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau cydraddoldeb ymhlith landlordiaid preifat a thenantiaid preifat. Mae'r prosiect wedi datblygu **canolbwynt gwybodaeth**, canllawiau a hyfforddiant am ddim i landlordiaid a thenantiaid yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr.

## ? Cwestiynau allweddol

- Gall unigolyn gael pecyn cymorth sy'n cynnwys gwahanol fathau o gymorth gan wahanol ffrydiau ariannu - a ystyriwyd hyn wrth asesu gofynion rhywun?
- A yw'r ceisiadau eu hunain wedi cael eu cynnwys neu eu hymgynghori wrth ddatblygu cynllun tai hygyrch neu gymorth newydd i'r unigolion?
- Pa effaith mae'r newidiadau i'r cyllid grant Rhaglen Cefnogi Pobl yn ei chael arnon ni?

## Cynlluniau cymorth yng Nghymru

Mae nifer o gynlluniau cymorth a ariennir ac a reolir yn wahanol yng Nghymru. Efallai fod gan unigolion un neu nifer o resymau dros fod angen cymorth, a all weithiau ymestyn y tu hwnt i baramedrau un gwasanaeth cymorth.

Mae Cefnogi Pobl yn rhaglen Llywodraeth Cymru gwerth £124 miliwn sy'n cefnogi mwy na 60,000 o bobl bob blwyddyn i'w hatal rhag mynd yn ddigartref. Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn aml yn helpu i osgoi arhosiad yn yr ysbyty a digartrefedd, lleihau'r angen am ymyriadau cost uchel a lleihau pwysau ar wasanaethau statudol megis iechyd, gofal cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol.

Mae **pecynnau cymorth a gofal gwasanaethau cymdeithasol** yn cynnwys gofal cartref neu ddydd, cymhorthion ac offer i helpu i gynnal annibyniaeth yn y cartref, gofal preswyl, cymorth gofalwyr neu gymorth ailsefydlu yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty. Gellir darparu'r cymorth yn uniongyrchol gan staff yr awdurdod lleol, trwy gontractau sydd gan awdurdod lleol gyda'r trydydd sector a darparwyr preifat, neu drwy daliadau uniongyrchol.

Mae **taliadau uniongyrchol** yn gyllid sy'n cael ei dalu i unigolyn gan ei Awdurdod Lleol fel y gallant brynu a rheoli eu gwasanaethau cymorth eu hunain, yn hytrach na bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n uniongyrchol. Mae taliadau uniongyrchol yn ymwneud â rhoi grym i bobl anabl gael mwy o ddewis, cymryd mwy o reolaeth ar eu bywydau a gwneud mwy o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu ffordd o fyw. Maent yn galluogi pobl anabl i gael cymorth gyda bywyd bob dydd, a gallant helpu unigolion sydd â gofynion cymorth i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na mynd i mewn i leoliadau preswyl.

## Astudiaeth achos

Yn Ne Cymru, mae cynllun wedi ei ddatblygu gan Pobl Reach mewn partneriaeth â gwasanaethau tai a chymdeithasol awdurdodau lleol. Nodwyd ac adnewyddwyd eiddo presennol. Mae hyn yn cynnwys 13 o fflatiau a lifft i'r holl loriau, sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, â'r gallu i gyrchu pecynnau cymorth wedi'u teilwra'n unigol os oes angen. Nodwyd darpar denantiaid yn gynnar ac fe wnaethon nhw gymryd rhan wrth ddewis gosodiadau a ffitiadau yn yr eiddo, gan ddylunio eu mannau cymunedol a dewis ystafelloedd.

# Llyfryddiaeth

Archwiliad Cymru (2018), 'Addasiadau tai'. Ar gael yn: www.audit.wales/system/files/publications/housing-adaptations-2018-english.pdf [wedi'i gyrchu: 8 Mehefin 2018]

Llywodraeth Cymru (dyddiad i'w gadarnhau), 'GALLUOGI cymorth i fyw'n annibynnol'. Ar gael yn: www.gov.wales/docs/desh/publications/170407-enable-key-facts-en.pdf [wedi'i gyrchu: 8 Mehefin 2018]

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o wefan y Comisiwn: **www.equalityhumanrights.com**.

Mae croeso i gwestiynau, sylwadau neu adborth ar y pecyn cymorth hwn, a dylid eu cyfeirio at: **correspondence@equalityhumanrights.com**.

## Fformatau eraill

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd fel ffeil Microsoft Word gan **www.equalityhumanrights.com**. I gael gwybodaeth ynghylch cyrchu cyhoeddiad y Comisiwn mewn fformat arall, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com**.

## EASS

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar faterion ynghylch cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth ar Gydraddoldeb, sy'n wasanaeth rhad ac am ddim ac annibynnol.

| | |
|---|---|
| Gwefan | **www.equalityadvisoryservice.com** |
| Ffôn | 0808 800 0082 |
| Ffôn Testun | 0808 800 0084 |
| Oriau | 09:00 to 19:00 (Llun i Wener) |
| | 10:00 to 14:00 (Sadwrn) |
| Post | RHADBOST EASS HELPLINE FPN6521 |

© 2018 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Wedi'i Gyhoeddi Hydref 2018



Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Wedi'i Gyhoeddi Hydref 2018

ISBN: 978-1-84206-750-5